



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen Canfyddiadau Allweddol ynghylch y Gymraeg

Crynodeb o'r Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 76/2014

Mae'r Cyfnod Sylfaen (a gyflwynwyd yn 2008) yn cynnig cwricwlwm o ddysgu trwy brofiad, sy'n briodol yn ddatblygiadol, i blant 3 i 7 oed yng Nghymru. Nod y gwerthusiad annibynnol (dan arweiniad WISERD), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yw gwerthuso pa mor dda y caiff ei roi ar waith, beth fu ei effaith, a ffyrdd o'i wella. Mae'r gwerthusiad tair blynedd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cymysg ar raddfa genedlaethol a lleol.

Dyma un o bum papur sy'n canolbwyntio ar **ymarfer**. Mae'n defnyddio 239 o arsylwadau ar ddsbarthiadau a lleoliadau, 341 o gyfweiliadau ag ymarferwyr, 604 o ymatebion gan ysgolion a lleoliadau i arolwg, 37 cyfweiliad ag Awdurdodau Lleol a phedwar cyfweiliad â lleoliadau nas cynhelir.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Canfyddiadau Allweddol

- At ei gilydd, **nid oedd amrywiaeth** yn null ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a lleoliadau nas cynhelir a ariennir o **weithredu'r** Cyfnod Sylfaen.
- Mewn arsylwadau, gwelwyd bod meysydd dysgu '**Datblygiad y Gymraeg**' a '**Sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**' mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, yn y drefn honno, yn digwydd yn ystod gweithgareddau strwythuredig a gweithgareddau 'nodweddiadol' y Cyfnod Sylfaen.
- Roedd **Cymraeg achlysurol** i'w gweld ym mwyafrif yr ysgolion cyfrwng Saesneg, ac roedd yn bresennol ar lafar (e.e. amser cinio) yn ogystal ag fel arall (e.e. ar arddangosfeydd ar y wal) o gwmpas yr ysgol.
- Credai 42% o Arweinwyr y Cyfnod Sylfaen fod **cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi ysgogi gwelliant** o ran datblygu sgiliau iaith Gymraeg plant (mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg).

Canfyddiadau Allweddol Pellach

Canfyddiadau cyffredinol

Roedd tuedd i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir **ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg plant** (i raddau amrywiol yn ddibynnol ar oedran/iaith yr addysg) **mewn sesiynau amser cylch targedig yn y bore**, lle byddai caneuon a rhigymau'n cael eu defnyddio i ymarfer e.e. diwrnodau'r wythnos, misoedd y flwyddyn, y tywydd a chyfrif, yn ogystal ag adeg cofrestru ac amser cinio.

Roedd tuedd i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir cyfrwng Saesneg **ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg plant ar wahân**, tra'r oedd ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir cyfrwng Cymraeg yn mabwysiadu dull mwy trawsgwricwlaidd ar draws pob maes dysgu.

Dywedodd **lleiafrif** o randdeiliaid awdurdodau lleol ac ymarferwyr fod **ansawdd Cymraeg ymarferwyr ychwanegol** (â rhuglder amrywiol yn ddibynnol ar iaith addysgu'r ysgol) yn effeithio ar y gallu i weithredu meysydd dysgu

'Datblygiad y Gymraeg' (ysgolion cyfrwng Saesneg) a 'Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' (ysgolion cyfrwng Cymraeg) yn llwyddiannus yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod nifer isel yr ymatebion yn awgrymu boddhad cyffredinol â sut mae datblygiad y Gymraeg a chaffael y Gymraeg yn cael eu cyflwyno a'u gweithredu yn y Cyfnod Sylfaen.

Gwelwyd **canran uchel o ryngweithiadau yn y Gymraeg** ar gyfer gweithgareddau mwy nodweddiadol y Cyfnod Sylfaen, fel gweithgareddau uniongyrchol, ymarferol a gweithgar mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Mae'n werth nodi bod canran uchel o ryngweithiadau yn y Gymraeg wedi'u gweld pan nad oedd oedolion yn bresennol.

Canfyddiadau Cyfrwng Saesneg

Dywedodd arweinwyr y Cyfnod Sylfaen fod sgiliau llythrennedd Saesneg plant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi **gwella'n fwy o gymharu â'u sgiliau llythrennedd Cymraeg**.

Dywedodd **Ileiafrif** o randdeiliaid awdurdodau lleol ac ymarferwyr fod addysgu'r Gymraeg yn fwy ffurfiol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ymddangos yn fuddiol, ac roeddent o'r farn bod **modelu iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn anodd pan mae plant yn dysgu'n annibynnol.**

Canfyddiadau Cyfrwng Cymraeg
Roedd y ffordd y mae plant yn cael eu trochi yn y Gymraeg (e.e. defnyddio'r Gymraeg yn unig, cyfieithu ar y pryd ac ati), yn ogystal ag **agweddau** ymarferwyr a disgyblion **at ddysgu a datblygu sgiliau Cymraeg** yn amrywio ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y byddai trochi ffurfiol cychwynnol yn fuddiol i weithredu'r Cyfnod Sylfaen, gan y byddai plant yn **datblygu dealltwriaeth well o'r Gymraeg**, a fyddai'n lleihau trafferthion trochi yn y dyfodol.

Roedd mwy o benaethiaid mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nag mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o'r farn bod datblygiad y Gymraeg **yn ystyriaeth allweddol yn addysg y blynyddoedd cynnar** ar gyfer eu hysgol.

Ystyriwyd fod plant sy'n cael addysg trwy gyfrwng iaith nad yw'n famiaith iddynt (e.e. plant sy'n mynychu lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref) yn un grŵp sy'n **elwa fwyaf o'r Cyfnod Sylfaen** (yn ôl adroddiadau gan benaethiaid).

Adroddodd penaeithiaid ac arweinwyr y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg am **fwy o welliant mewn sgiliau llythrennedd Cymraeg plant** ers gweithredu'r Cyfnod Sylfaen.

Dywedodd **Ileiafrif** o randdeiliaid awdurdodau lleol ac ymarferwyr fod cael canran uchel o blant o gartrefi di-Gymraeg yn mynychu addysg Gymraeg yn gwneud trochi'n anodd, a'i bod hi'n fwy tebygol i'r plant droi'n ôl at y Saesneg.

Awduron: Mirain Rhys, Samuel Waldron, Chris Taylor (Prifysgol Caerdydd)

ISBN: 978-1-4734-1856-1

17 Gorffennaf 2014